CYNGOR DINAS CASNEWYDD

GORCHYMYN (B4245 HEOL MAGWYR (RHAN), CASNEWYDD) (TERFYN CYFLYMDER 30MYA) 2024

HYSBYSIR drwy hyn fod Cyngor Dinas Casnewydd drwy arfer ei bwerau o dan adran 84 a Rhannau III a IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd) ac unrhyw bwerau galluogi eraill yn bwriadu gwneud gorchymyn, a'i effaith gyffredinol fydd dileu'r terfyn cyflymder 50mya presennol a gosod terfyn cyflymder 30mya yn ei le i'r graddau y mae'n ymwneud â hyd Heol Magwyr a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn yn unig.

Mae manylion llawn y cynigion hyn yn y gorchymyn drafft, a gellir eu harchwilio ynghyd â chynllun a datganiad o resymau’r Cyngor dros gynnig gwneud y gorchymyn, drwy sganio’r cod QR isod neu drwy wneud cais i Conveyancing.Team@newport.gov.uk neu drwy ffonio 01633 656656. Os hoffech wrthwynebu'r cynigion dylech anfon eich rhesymau dros wrthwynebu yn ysgrifenedig at yr unigolyn isod erbyn 19 Mawrth 2024.

DYDDIAD: 23 Chwefror 2024

E Bryant, Pennaeth y Gyfraith a Safonau, Canolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR.

ATODLEN 1

Heol Magwyr: o bwynt yn unol â'r ffin gyffredin â Sir Fynwy am bellter o 60 metr i gyfeiriad y gogledd-orllewin.

NEWPORT CITY COUNCIL

(B4245 MAGOR ROAD (PART), NEWPORT) (30MPH SPEED LIMIT) ORDER 2024

NOTICE is hereby given that Newport City Council in exercise of its powers under section 84 and Parts III and IV of Schedule 9 of the Road Traffic Regulation Act 1984 (as amended) and any other enabling powers intends to make an order the general effect of which will be to remove the existing 50mph speed limit and replace it with a 30mph speed limit insofar as it relates to the length of Magor Road specified within Schedule 1 to this Notice only.

Full details of these proposals are in the draft order, which together with the plan and a statement of the Council's reasons for proposing to make the order, may be inspected by scanning the QR code below or via request to Conveyancing.Team@newport.gov.uk or telephone 01633 656656. If you wish to object to the proposals you should send the grounds for your objection in writing to the undersigned by 19th March 2024.

DATED: 23rd February 2024

E Bryant, Head of Law and Standards, Civic Centre, Newport, NP20 4UR.

SCHEDULE 1

Magor Road: from a point in line with the common boundary with the County of Monmouthshire for a distance of 60 metres in a north westerly direction.